

## Pennod 2: Y ffordd trwy'r dryswch

Cyf: Wele wawrio ddiwrnod y canlyniadau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch, a diwrnod digon stormus a wawriodd eleni - yn anochel efallai. Ym mlwyddyn Covid 19, y flwyddyn heb arholiadau, y flwyddyn lle'r oedd gwahaniaethau polisïau methodoleg rhwng gwledydd sy'n gymdogion yn amlwg iawn, gobeithio y gall y bennod hon o 'Pa Opsiwn i Ti' gynnig tipyn bach o gyngor diduedd a di-ffÿs.

Os ydych chi'n dathlu, llongyfarchiadau, os oes cwestiynau gyda chi, neu deimlad bod angen ystyried eich opsiynau o ddifrif, yna daliwch ati i wrando.

A throi, i ddechrau, wnawn ni at Alex a'i mam, Lynn. Fe glywsom ni gan Alex yn y rhifyn cyntaf, disgybl Iwclus am fod ganddi le diamod mewn prifysgol yn ei phoced, yn saff, ond disgybl hefyd a gafodd siom gyda'i chanlyniadau AS y llynedd, ac a oedd yn benderfynol o wneud dipyn gwell yn ei harholiadau Uwch Gyfrannol eleni. Ond, chafodd hi ddim cyfle, wrth gwrs. Ac felly, o dan y drefn o safoni awgrymiadau ei hathrawon, sut aeth pethau Alex?

Alex: Ges i mewn i brifysgol, er, dw i wedi gorfod apelio'r graddau. Ond fi'n mynd i'r brifysgol, felly dyna'r peth pwysig.

Cyf: Yn hollol, felly hefo cynnig diamod, doedd heddiw ddim am fod yn ddiwedd y byd y naill ffordd neu'r llall. Ond, eglura felly ynglŷn â'r graddau ac apelio ac yn y blaen - sut wyt ti wedi ffeindio'r broses honno?

Alex: A bod yn gwbl onest, roedd e'n eitha' llawn *stress*. Doedd y graddau heb gael eu rhoi ar y we tan tua 45 munud ar ôl yr amser yr oedden nhw wedi'i ddweud. Felly roeddem ni'n poeni yn ystod yr amser yna, ac wedyn ffeindio mas fod y graddau darogan yr oeddwn i wedi'u cael yn gynharach yn y flwyddyn... doedd dim sôn amdany'n nhw, roedd popeth o leiaf gradd yn llai nag oeddwn i'n ei ddisgwyl. Ac wedyn roedd angen mynd i'r ysgol i apelio. Roedd yr ysgol yn wych, roeddwn nhw'n ein helpu ni gyda'r apeliadau a phopeth, felly yn awr, dw i'n llawer mwy hapus.

Cyf: A beth am dy ffrindiau, Alex, fel criw? Ydych chi wedi bod yn rhannu'r newyddion? Wyt ti wedi cael ar ddeall am unrhyw un arall felly? Sut mae pethau wedi bod yn gyffredinol iddyn nhw?

Alex: Ar y cyfan mae pawb wedi, o leiaf, cael eu derbyn i'w prifysgolion cyntaf nhw. Rhai efallai heb gael gymaint o lwyddiant ag eraill, ond ar y cyfan, mae pawb yn hapus i fynd i'r brifysgol. Mae yna dal ychydig o ddicter dros y canlyniadau eu hunain, ond rwy'n credu ar y cyfan fod pawb yn hapus. Er, tan ein bod ni'n mynd, dw i'n credu bydd ychydig o dor calon.

Cyf: Rwyt ti'n defnyddio'r gair dichter, a ti'n swnio'n rhwystredig, wyt ti'n gallu egluro - hyd yn oed i ti, sy'n gwybod fod gen ti le mewn prifysgol, a bydd dy fywyd di'n mynd yn ei flaen, doedd heddiw ddim yn ddiwedd y byd i ti'r naill ffordd neu'r llall - wyt ti'n gallu cyfleu'r rhwystredigaeth a'r teimlad yna o ddicter, ac egluro pam?

Alex: Wel, cyn yr holl broblem gyda'r *lockdown* a phopeth, roedd lot o straen ar ba mor bwysig yw'r graddau yma ar gyfer gweddill eich bywyd chi. Roeddwn nhw'n dweud 'wel mae'r graddau yma yn mynd i fod yn eich dilyn chi trwy gydol eich bywydau, pan fyddwch chi'n mynd am swyddi a phopeth'. Ond ers hynny, mae bron fel bod popeth wedi newid, mae pawb yn dweud 'O, chi yw'r flwyddyn sbesial yma, mae pawb yn mynd i'ch gweld chi fel y flwyddyn oedd wedi, efallai, cael ei chwarae o gwmpas ynglŷn â'r canlyniadau'. Dw i'n credu,

mae jest y symud o roi'r pwysigrwydd yma ar y canlyniadau i 'chi'n mynd i fod yn iawn beth bynnag sy'n digwydd...' mae o jyst ychydig yn ddryslyd i ni fel grŵp o ddisgyblion, achos dy' ni ddim yn gwybod os ydyn ni i fod i boeni mwy, neu beidio, felly dy ni ddim wir yn gwybod sut i deimlo. Er bod 'da fi gynnig di-amod, ro'n i'n gwybod fod y canlyniadau yma'n mynd i fod yn bwysig er hynny, achos er mwyn cael swyddi bydd rhaid cael canlyniadau Lefel A da, felly roedd ychydig o ddryswch ynglŷn â sut i deimlo amdanyn nhw.

Cyf: Ie, alla'i ddychmygu. Beth am mam te? Lynn, yn gwisgo'i het 'mam' yn eistedd ar bwys Alex fel 'na. Sut ydych chi wedi ymateb i heddiw, Lynn?

Lynn: Ro'n i'n teimlo'n eitha' crac bore 'ma, achos am wyth o'r gloch eisteddodd y ddwy ohonom ni lawr i chwilio am y canlyniadau, a doedd dim canlyniadau'n dod trwyddo... doedd y wefan ddim wedi gweithio mor dda ag y gallai. A ro'n i'n teimlo dros Alex, achos roedd 'na deimlad mawr o rwystredigaeth, a hefyd, ni wedi bod yn sôn dros y diwrnodau diwethaf am, ar yr un llaw, y pwysigrwydd o gael Lefel A da, ond, hefyd, y peth mwyaf pwysig yn awr yw cael gradd dda yn y brifysgol, a symud ymlaen... A thrio esbonio'r sefyllfa, bod llawer o bobl, efallai, ddim yn cael y graddau Lefel A/Safon Uwch y maen nhw'n ei ddisgwyl, ac wedi hynny yn gwneud yn dda yn eu gradd, ac ôl radd, ac yn eu gyrfa. A 'dyw heddiw, er bod heddiw yn ddiwrnod pwysig dros ben, dyw e ddim yn ddiwedd y byd.

Rwy'n credu mai'r peth pwysicaf i mi oedd cefnogi Alex, wrth gwrs, a phan ddaeth y canlyniadau ro'n i'n falch iawn drosti, ond hefyd yn teimlo siom enfawr am 'mod i'n gwybod y gallai fod wedi gwneud llawer yn well na'r graddau a gafodd hi.

Cyf: Mae'n rhwydd i ni ddweud on'd yw hi, 'o wel, dyw hi ddim yn ddiwedd y byd', a 'symudwch yn eich blaenau', a 'fydd neb yn gofyn i chi eto am eich canlyniadau' ac yn y blaen, ac 'ymlaen i'r brifysgol nawr'? Ond ar y diwrnod ei hun, a dw i'n gwybod o brofiad fan hyn, mae o yn cyfrif, tydy? Wrth gwrs, ac mae'r bobl ifanc eisiau ffydd yn y canlyniadau hefyd.

Lynn: Ydyn, ac wrth gwrs, pan y'ch chi'n ddeunaw a'ch bywyd o'ch blaen, heddiw yw eich bywyd, ac wedi hynny, cael canlyniadau siomedig... er, 'da ni wedi pwysleisio ei bod hi wedi cael cynnig di-amod yn y brifysgol, ac roedd hi wedi cael cadarnhad gan y brifysgol cyn cael y canlyniadau gyda llaw, roedd hynny braidd yn siomedig hefyd, ond... dw i ddim yn gwybod, [dw i'n] meddwl am y lleill... mae cwpwl o bobl ifanc dw i'n eu hadnabod sydd heb gael lle ar gyrsiau meddygaeth, ac mae hynny yn torri calon - dros y criw o ffrindiau eu hunain, nid dim ond drosti hi. Er bod dim byd gyda ni i fod yn siomedig amdano, yn y pen draw, achos mae hi'n cael mynd i'r brifysgol, ac mae'r ysgol wedi bod yn wych yn helpu gyda'r broses apelio. Ar ddiwedd y dydd, os bydd y graddau sydd wedi cael eu cyflwyno heddiw yn sefyll, wel dyna fe, ymlaen ati yn y brifysgol 'weda i.

Cyf: Yn hollol. Gadwch i mi jest gofyn i chi'ch dwy fel hyn 'te, fel mam a merch, felly, Alex, oes gen ti ffydd yn y canlyniadau?

Alex: Ddim yn y canlyniadau a gafodd eu rhoi gan CBAC y bore ma, oherwydd ro'n i'n gwybod ein bod ni wedi gwneud yn well nag yr oedden nhw wedi'i roi. Ac mae'n anodd trio dangos hynny i bobl eraill, sydd heb weld eich gwaith chi neu'ch *mocks* chi neu beth bynnag. Ond, ro'n i fy hun yn gwybod ein bod ni'n haeddu o leiaf gradd yn fwy, os nad mwy. Ond mae'r ysgol wedi rhoi lot o ffydd ynom ni trwy fynd trwy'r apeliadau, gan ddweud 'roeddwn ni fel ysgol wedi rhoi hyn i ti, maen nhw wedi'ch cymryd chi lawr, felly ni'n mynd i apelio i wneud yn siŵr eich bod chi'n cael y graddau yr oeddech chi i fod i'w derbyn '

Cyf: A Lynn, o ystyried yr holl straeon sydd wedi bod o gwmpas y lle dros yr wythnos ddiwethaf: penderfyniad mawr yn yr Alban sy'n cael effaith ar benderfyniad yn Lloegr sy'n cael effaith ar benderfyniad yng Nghymru.. yn anochel felly, does dim modd anwybyddu'r straeon mawr sydd wedi bod o gwmpas. Ydych chi'n teimlo, yn y pen draw, 'mae gen i ffydd yn y canlyniadau', neu ffydd yn y broses, ynteu a oes yna ryw deimlad fod yna waith i'w wneud i sicrhau bod ffydd yn y canlyniadau?

Lynn: Wel, fi'n credu bod lot o waith i'w wneud i godi hyder yn y canlyniadau yma. Ac fel rhiant, rwy'n gweld fod 'na ddiffyg ffydd mewn athrawon wedi'i ddangos yn ofnadwy. Mae'r athrawon wedi gweithio mor galed dros gyfnod mor anodd, ac wedyn [mynd ati] i gynnig graddau darogan, ac wedi hynny cafodd y graddau wedi'u hisraddio... rwy'n teimlo'n siomedig dros ben.

Cyf: Mi alla'i ddychmygu. Ond mae 'na newyddion da, fel rydych chi'n ei bwysleisio, yng nghanol hyn oll, sef: yn y pen draw, mae Alex yn gwybod, ac yn gwybod ers y peth cyntaf bore ma, ac yn gwybod bod gyda hi, ers wythnosau a dweud y gwir, gynnig di-amod i fynd i'r brifysgol. Felly, mae bywyd Alex yn symud yn ei flaen, a hynny, yn y pen draw, sy'n bwysig. Gadewch i ni droi [yn awr] at Aled Roberts. Mae Aled Roberts yn cynrychioli Gyrfa Cymru, ac wedi bod trwy'r drin hon ers blyneddau. Ond Aled, mae'n rhaid bod heddiw yn teimlo'n hynod o wahanol, i bawb felly, gan eich cynnwys chi. Beth fydddech chi'n ei ddweud wrth Alex, gan wybod, yn y pen draw, fod Alex yn gwybod ei bod hi'n mynd i'r brifysgol? Beth yw'r peth call i Alex ei wneud yn awr wrth edrych ymlaen dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf?

Aled: Wel, byddwn i'n dweud llongyfarchiadau i ddechrau! Dw i'n siŵr fod hwn wedi dod yn rhyddhad... er y galla' i ddeall, ac nid hi yw'r unig un sydd â'r teimlad yma, o fod ar ddiwedd cyfnod od, [a phan] mae'r canlyniadau'n dod, efallai 'dy nhw ddim wedi taro deuddeg o safbwynt beth oeddech chi'n ei ddisgwyl. Ond, byddwn i'n dweud yn awr mae angen edrych ymlaen - edrych i'r dyfodol - a sicrhau, byddwn i'n dweud yn awr, dros y dyddiau nesaf, fod popeth yn ei le ynglŷn â'r cwrs, bod popeth yn ei le ynglŷn ag os wyt ti'n mynd i lety - bod hynny i gyd wedi'i sortio allan. Jest paratoi ar gyfer y cam nesaf yn dy fywyd di, a dy fod di'n cymryd y cam yna'n hyderus, yn gwybod: Oce, dyw'r arholiadau heb ddisgwyl, ond o dy safbwynt di, ac o safbwynt nifer o ddisgyblion sydd yn yr un sefyllfa, rydych chi yn symud ymlaen... A byddwn i'n dweud, efallai'r amser yma'r flwyddyn nesaf, gobeithio... bydd hyn ddim yn angof yn bendant, ond mi fydd yn ddiwrnod y byddi di yn ei gofio am byth. Ond gobeithio y byddi di'n cofio'r diwrnod yma am y rheswm dy fod di wedi llwyddo, a dy fod di'n symud ymlaen, a dy fod di'n cael y cyfle yn awr i fynd ymlaen gyda dy addysg, a dilyn y trywydd yr wyt ti eisiau ei wneud.

Cyf: Yn gwmws, maen nhw'n swnio'n eiriau eithaf call i mi. Alex, cytuno?

Alex: Ie, mae'n bwysig edrych ar y pethau positif o heddiw, sef bod llawer o'n ffrindiau i'n mynd i brifysgol, rwyf i 'di cael lle – er mod i'n gwybod hynny'n barod – ond roedd e'n bwysig i gofio fy mod i yn mynd i'r brifysgol, a bod pennod newydd o'm mywyd i ar fin dechrau.

Cyf: Yn hollol, ac mae hynny'n swnio hyd yn oed yn gallach i mi, Alex! Ac mae Safon Uwch drosodd, ti dros y trothwy yna, ymlaen yn awr lawr y lôn tuag at y brifysgol. Alex a Lynn, diolch o galon i chi am ymuno.

A dw i'n mynd i bigo brêns Aled Roberts fymryn yn rhagor yn awr ynglŷn â'i gyngor ef i rheini fel Alex sydd wedi cael eu canlyniadau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol heddiw, ond diolch yn fawr i chi'ch dwy.

Ac mae eisiau pigo brêns Aled Roberts o Gyrfa Cymru yn sicr. Fel y clywais i rywun yn dweud, oriau wedi cyhoeddi'r canlyniadau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol yma yng Nghymru: 'mae 'na lwyth o gathod newydd lanio yng nghanol llwyth o golomennod'. Ac felly, oes, mae eisiau llwyth o gyngor call on'd oes, i'r criw a gafodd eu canlyniadau eleni?

Aled: Yn bendant, a'r un peth y byddwn i'n ei ddweud, o ran y disgyblion rydw i wedi siarad â hwy, mae'r teimlad yma yn eithaf cryf. [Mae 'na] lawer hefyd, fel clywon ni'n gynharach, efallai eu bod nhw'n iawn, ond efallai bod un neu ddau o'u ffrindiau nhw wedi cael siom aruthrol. Ond, mae'n gyfnod, dw i'n meddwl, y bydd pawb yn cofio amdano, a bydden i'n dweud, ar hyn o bryd, mae angen pwylllo ar y rhai hynny sydd efallai ddim wedi cael yr hyn maen nhw ei angen. Dw i'n gwybod, dros gyfnod lle mae lot o ddisgyblion wedi cael eu canlyniadau, fod lot o ysgolion yn apelio, felly bydd na newid dwi'n siŵr gyda thipyn ohonyn nhw. A hefyd, dw i'n gwybod bod gwefan UCAS wedi bod yn hynod brysur. Dw i'n gwybod, ar un adeg, y gwnaeth o dorri lawr. Felly, mae'n gyfnod y bydd pawb yn edrych yn ôl ac yn meddwl 'gosh, sut y gwnaeth hynny ddigwydd?' Ond, dyna fe, mae wedi digwydd, ac mae'n rhaid i ni geisio ymdopi a symud ymlaen nawr, yn y ffordd orau bosibl.

Bydden i'n awgrymu i unrhyw un sydd ddim â rhyw fath o syniad pendant, mae'n bwysig eich bod chi'n cael cyngor. Siaradwch gyda'r ysgol yn gyntaf, gyda'ch pennaeth blwyddyn - mae ganddyn nhw brofiad o ddelio gyda phethau o ran prifysgolion a phethau felly - ac mi fydd gan eich ysgol chi ymgynghorydd gyrfaoedd hefyd, mynnwch air gyda nhw. O ein safbwynt ni fel Gyrfa Cymru, rydym ni yna i roi cymorth, a chymorth i bob un, cymorth sy'n mynd i fod yn hollol ddiuedd, cymorth a fydd wedi cael yr holl wybodaeth o safbwynt y camau nesaf. Ac fel o'n i'n sôn, mae gwefan UCAS... ro'n i'n edrych ar y '*clearing*' - dyna'r system lle gallwch fynd i mewn os nad ydych chi'n bwrw'r nod- ro'n i'n synnu eleni faint o brifysgolion y Russel Group, sef y prif brifysgolion - sydd ddim yn aml iawn â lleoedd ar ôl yn *clearing* - mae tipyn o'r rheini dal i fod â lleoedd yn *clearing*. Felly, o bosibl, mae effaith Brexit, ac efallai'r ffaith fod myfyrwyr tramor ddim am ddod i'r prifysgolion eleni, wedi creu mwy o leoedd. Felly, mewn ffordd, gallai hynny fod yn *bonus* i rai pobl.

Cyf: Felly mae bron â bod yn deimlad o: os ydych chi wedi colli ar y naill law, peidiwch â rhoi eich pen yn eich plu, achos falle y gallwch chi ennill ar y llaw arall? Os oes yna gyrsiau yr oedd pobl wedi gobeithio eu gwneud, ond ddim cweit wedi taro'r nod, mae'n werth holi tydy? Rhag ofn bod 'na le?

Aled: Yn bendant. Y peth cyntaf yw mynd yn ôl at y cwrs gwreiddiol i weld beth yw'r sefyllfa. Os ydych chi'n mynd trwy *clearing*, mae gan UCAS eleni rhywbeth newydd o'r enw *clearing plus*, lle mae'r wybodaeth am y cyrsiau yr ydych chi wedi'i roi... bydd UCAS yn rhannu eich gwybodaeth chi gyda hanner cant o gyrsiau o'r un math mewn prifysgolion eraill. Felly, mae 'na bosibilrwydd, os ydych chi'n mynd i mewn i *clearing plus* - ac mae hwn yn hollol newydd eleni - gallech chi roi eich gwybodaeth i'r prifysgolion, mi wnân nhw gysylltu â chi, rydych chi'n cysylltu â nhw os oes gennych chi ddi-ddordeb a falle y down nhw'n ôl atoch chi. Felly, dywedwch eich bod chi moyn mynd i astudio, ddywedwn ni hanes ym Mangor, a'ch bod chi ddim cweit wedi bwrw'r nod, efallai bydd prifysgol arall sy'n cynnig hanes fel pwnc, ac efallai bydd lle ganddyn nhw, ac o bosibl y bydden nhw efallai yn dweud y gwnân nhw'ch derbyn chi. Felly mae'n werth edrych ar hynny fel un o'r prif opsiynau o ran camau nesaf. Felly UCAS *clearing*.

Mae pawb sydd wedi ymgeisio am y brifysgol wedi mynd trwy UCAS, [ac ar] UCAS *track*, mi fyddwch chi ar hwnnw, ac mi fyddwch chi'n gallu ffeindio'ch ffordd o gwmpas y safle yn reit syml.

Cyf: Ac o ran.. chi'n dweud fod 'na *tracks*, mae 'na lonydd gwahanol... i'r rheini sydd efallai wedi cael eu derbyn ar gyfer cwrs, neu i goleg, neu wedi cael prentisiaeth, ond eto sy'n teimlo'n rhwystredig gyda'u canlyniadau. Hynny yw, mae modd apelio wrth barhau i feddwl am y cwrs yr ydych chi'n dymuno ei wneud yn y dyfodol, a bwrw ymlaen yno hefyd, on'd oes? Does dim rhaid dewis y naill beth neu'r llall?

Aled: Na, allech chi barhau i chwilio. Ond bydden i'n dweud fod angen gwneud y gwaith cartref ynglŷn â'r cyrsiau, gweld beth sydd yno, gwneud rhestr fer.. peidio penderfynu ar unwaith, efallai cymryd diwrnod neu ddau i edrych dros beth sydd yno. Mae'n dibynnu, efallai gwnaiff rhai prifysgolion roi pwysau amser arnoch i benderfynu, felly mae angen bod mewn sefyllfa - pan fo'r penderfyniad yn cael ei wneud - eich bod chi wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cwrs. Hynny yw, efallai fod y cwrs hanes mewn un lle yn cael ei roi mewn ffordd wahanol i'r un oeddech chi am ei wneud yn wreiddiol. Felly mae angen y cwestiynau.

Mi fydd y prifysgolion, mae ganddyn nhw i gyd linellau ffôn, maen nhw'n mynd i fod ar agor trwy'r cyfnod yma nawr, maen nhw'n barod i siarad gyda darpar fyfyrwyr, maen nhw'n barod i roi'r wybodaeth yma. Mi fydden i'n argymhell yn gryf i'r bobl sydd newydd wneud y Safon Uwch yma: siaradwch gyda'r tiwtoriaid mynediad, peidiwch â bod ofn eu ffonio nhw, maen nhw'n disgwyl eich galwad chi, maen nhw'n gwybod eich sefyllfa chi o ran beth sydd wedi digwydd y flwyddyn yma, ac wrth gwrs maen nhw am gymryd hynny mewn i ystyriaeth mewn nifer o brifysgolion.

Felly mae'n bwysig bod pob llwybr ar agor i chi mewn gwirionedd, os taw edrych am brifysgol y'ch chi. Efallai bydd un neu ddau o bobl ddim yn teimlo... efallai bod nhw wedi cael tipyn o glec.. a'u bod nhw moyn edrych ar y llwybr arall. Bydden i'n awgrymu'n gryf i siarad gyda ni yn Gyrfa Cymru - gallwn ni'ch cynorthwyo chi.. o ran gwybod beth sydd angen ei wneud ynglŷn â phethau fel prentisiaethau. Mae 'na ddigon ohonyn nhw allan yna, ac mae llawer ohonyn nhw'n gofyn am sgiliau arbennig. [Gyda] llawer ohonyn nhw, bydd cyflogwyr yn edrych ar eich sgiliau chi yn fwy na'ch gradd chi efallai. Hynny yw, maen nhw'n edrych am bethau fel: eich bod chi'n berson sy'n medru gweithio mewn tîm, eich bod chi'n frwdfrydig, eich bod chi'n gallu gweithio ar eich pen eich hun, eich sgiliau trefnu chi, eich bod chi'n gallu dilyn cyfarwyddyd, ac wedyn pethau fel prydlondeb a'ch bod chi'n rhywun y gellid ymddiried ynddo. Dyna beth y byddai pobl sy'n cymryd prentisiaid, neu hyd yn oed yn y sector swyddi os ydych chi'n edrych am swyddi, [yn chwilio amdano].

Ond siaradwch gyda ni yn Gyrfa Cymru, mi allwn ni roi cyngor i chi... os ydych chi mewn cyfyng gyngor, o safbwynt prifysgol, o safbwynt prentisiaeth, o safbwynt swydd, mi allwn ni roi cyfarwyddyd a gwybodaeth fanwl i chi ynglŷn â beth sydd allan yna. Ac wedyn, allwn ni ei drafod e, a gobeithio, trwy drafod, y daw'r penderfyniad ychydig bach yn haws wedyn o safbwynt cael y wybodaeth yn gyflawn.

Cyf: A cyn i mi ofyn i chi am rif ffôn a gwefan ac yn y blaen, Aled, a gaf i jyst gofyn i chi am y criw a wnaeth Uwch Gyfrannol eleni, criw bach sy'n teimlo, un neu ddau ohonyn nhw efallai, eu bod nhw yn mynd tipyn bach yn angof? Hynny yw, bod yna ofid mawr wedi bod, yn amlwg, am Safon Uwch, gan fod y peth yn symud yn ei flaen a bod angen penderfyniad er mwyn penderfynu ble mae rhywun yn mynd nesaf. Efallai y bydd hi'r un peth ym mhen yr wythnos,

nid yn unig gyda'r TGAU, ond y rheini sy'n gwneud y flwyddyn gyntaf TGAU ac yn y blaen... y criw Uwch Gyfrannol, sydd wedi gweld y storm fawr yma o'u cwmpas nhw, a'r berw o straeon, ac sydd wedi cael eu canlyniadau hwythau, bydd rhai ohonyn nhw yn siomedig, wedi bod trwy'r un system, beth fydddech chi'n ei ddweud wrth y criw hwnnw?

Aled: Eto, y peth cyntaf: trafodwch gyda'r ysgol. Mae'n dibynnu ar eich graddau chi, mae'n dibynnu ar sawl pwnc yr ydych chi'n ei wneud, efallai bydd ambell un angen penderfynu pa bwnc i'w ollwng i fynd ymlaen i Flwyddyn 13. O bosibl bydd un neu ddau ddim wedi taro'r nod yr oedden nhw yn ei obeithio o ran canlyniad. Mae hi'n gyfnod mor od, mor lletchwith, mi fydd pob un yn cael ei drin yn wahanol.

Siaradwch â'r ysgol i ddechrau, siaradwch â'ch pennaeth blwyddyn os ydych chi newydd wneud Uwch Gyfrannol, mi fyddan nhw'n gallu rhoi cyngor da i chi o safbwynt y cam nesaf, hynny yw, os ydych chi am fynd ymlaen i wneud y Safon Uwch llawn. Os bydd rhywbeth yn codi, a bod hynny ddim yn bosibl, yna mae'n bwysig eich bod chi'n dod i siarad â ni yn Gyrfa Cymru i edrych ar y cam nesaf, achos, dyw e ddim yn ddiwedd y byd. Fel yr o'n i'n ei ddweud, rydym ni'n gallu edrych ar bethau gwahanol, gallu edrych ar y sgiliau, gallu edrych ar eich gwir ddiddordeb chi [o ran y] dyfodol. A gwneud yn sicr fod y penderfyniad yna yn cael ei wneud.

Ond mae hi wedi bod yn amser anodd, falle mwy anodd i ddisgyblion Blwyddyn 12 oherwydd nad ydyn nhw wedi cael y cyfle i osod eu marc, os leciwch chi, fel y mae Blwyddyn 13 wedi'i wneud - fe gawson nhw'r cyfle i wneud eu ffug arholiadau, mae ganddyn nhw farciau AS ers y llynedd. Mae'n mynd i fod yn amser lle mae angen pwylllo. Ond y peth cyntaf: trafodwch gyda'ch pennaeth blwyddyn yn yr ysgol, yna dewch i siarad gyda ni. Fel yr o'n i'n dweud, mae gennym ni rywun ym mhob ysgol yng Nghymru, a gallwch chi siarad â hwy, gyda Gyrfa Cymru. Ac wedyn, mae gennym ni'r cyfryngau cymdeithasol, sydd â gwybodaeth, mae gennym ni wefan, gallwch chi fynd ar Gyrfa Cymru ar Twitter, ar Facebook, mae gennym ni fideos a gwybodaeth ar YouTube. Ac wedyn, os ydych chi moyn cysylltu â ni, gwnewch hynny trwy'r ysgol, neu gallwch chi siarad â ni trwy ffonio 0800 028 4844, aiff hwnna â chi i'n llinell ffôn, a bydd 'na rywun fedrai siarad â chi'n syth fan yna ynglŷn â beth yw'ch gofynion chi. Gallwch chi hefyd siarad yn fyw, ar-lein, ar ein gwefan ni, mae gyda ni *live chat*, mae yno gynghorwyr profiadol sy'n rhoi'r wybodaeth i chi fanna.

Y peth pwysig yn yr holl gyfnod yma yw: peidiwch â theimlo bod rhaid i chi wneud penderfyniadau ar eich pen eich hunain. Siaradwch â phobl sy'n gwybod am beth maen nhw'n siarad, sy'n gwybod yn union beth i'w wneud gyda'r cam nesaf, a thrwy wrando arnyn nhw, efallai gwnaiff hynny eich helpu i wneud, a dod at, benderfyniad doeth, gyda gwybodaeth dda.

Cyf: Diolch unwaith eto i Alex, i Lynn, ac i Aled Roberts sydd wedi bod yn ei chanol hi dros gyfnod y canlyniadau, ac sydd, yn ddiarnheuol, eisoes wrthi'n dechrau paratoi at y canlyniadau TGAU, a'r rhifyn nesaf o 'Pa Opsiwn i Ti?'

Wedodd rhywun rywbeth am ail don?